



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY


# Gyrru bws mini

Canllawiau ymarfer gorau i yrwyr gwirfoddol


Ebrill 2020

## Cynnwys


Rhagair ....................................................................................................................3

Dod yn yrrwr awdurdodedig ....................................................................................3

1.1 Ydych chi'n gymwys i yrru bws mini? ....................................................................3

2.1 Diogelwch a lles eich teithwyr ..............................................................................6

2.2 Rheolau'r Ffordd Fawr a chyfraith gyrru sylfaenol .................................................8

2.3 Addasrwydd y cerbyd i'r ffordd ...........................................................................9

2.4 Gwirio cyn teithio ..................................................................................................9

2.5 Yswiriant y cerbyd ..................................................................................................9

2.6 Oriau'r gyrrwr ......................................................................................................10

2.7 Arferion lleol .........................................................................................................13

3.1 Llwytho a dadlwytho teithwyr ..............................................................................13

3.2 Uchafswm y llwyth a ganiateir ..............................................................................14

3.3 Gwregysau diogelwch ...........................................................................................14

3.4 Cynllunio eich taith ................................................................................................15

3.5 Pobl gydag anghenion arbennig / Teithwyr gyda chadeiriau olwyn .........................16

3.6 Rôl cydymaith .......................................................................................................16

4.1 Cyfyngwyr cyflymder .............................................................................................16

5.1 Salwch teithwyr ......................................................................................................17

6.1 Mynd â bws mini dramor ........................................................................................17

7.1 Arwydd uchder y bws mini .......................................................................................18

## Rhagair

Yn y llyfryn hwn ceir gwybodaeth ddefnyddiol fydd yn helpu i'ch cadw chi'n ddiogel ar y ffordd. Waeth pwy sy'n berchen ar y cerbyd, y gyrrwr sy'n gyfrifol yn gyfreithiol amdano pan fydd yn ei yrru a rhaid meddu ar y drwydded gywir a sicrhau bod y cerbyd yn addas i'r ffordd ac wedi'i drethu gydag MOT ac yswiriant. Mae'r llawlyfr hwn yn cynnig cyngor ymarferol a gwybodaeth ar sut i'ch cadw eich hun, eich teithwyr a'ch cerbyd mor ddiogel â phosibl.

## Dod yn yrrwr awdurdodedig


Er mwyn gyrru bws mini a chyn gallu ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant, asesiad neu ddyletswyddau gyrru, **rhaid** i chi ddilyn y broses awdurdodi gyrrwr fel y'i mynegir yn y Polisi Diogelwch Gyrwyr.

## 1.1 Ydych chi'n gymwys i yrru bws mini?

Gallech chi ateb y cwestiwn hwn mewn sawl ffordd e.e. ydych chi'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol i yrru bws mini yn ddiogel? Oes gennych chi ddigon o brofiad gyrru i fod yn gyfrifol am gerbyd mor fawr, yn enwedig gyda theithwyr? Ond yn gyntaf rydym ni am edrych ar y gofynion cyfreithiol, yn cynnwys rhai amodau ychwanegol sydd gan y Brifysgol.

**Rydym ni'n diffinio bws mini fel...**

Cerbyd modur sydd wedi'i adeiladu neu ei addasu i gludo dros wyth, ond heb fod yn fwy nag un ar bymtheg, o deithwyr yn eistedd, gydag Uchafswm Más Awdurdodedig (MAM) nad yw'n fwy na 3500kg (3.5 tunnell fetrig), oni bai ei fod wedi'i addasu ar gyfer cludo teithwyr anabl (3.2). Mae'r cyfyngiad pwysau ar gerbydau sy'n cludo cyfarpar arbenigol wedi'i godi o 3500kg i 4250kg.




Bydd uchafswm más awdurdodedig (MAM) y bws mini i'w weld ar blât yn y cerbyd (y rhif cyntaf) a welir fel arfer wrth draed y gyrrwr, ar ffrâm y drws neu o dan y bonet. Y pwysau hyn, y MAM, sy'n nodi categori'r drwydded sydd ei hangen i yrru'r cerbyd.

Bydd yr wybodaeth ganlynol yn nodi a gewch chi yrru bws mini yn y cynllun hwn:

### A gaf i yrru Bws Mini?

Cewch yrru bws mini ar yr amod eich bod yn bodloni rhannau perthnasol y meini prawf canlynol:

- Nid hurio neu wobr yw diben eich taith (oni bai ei fod yn gweithredu dan Drwydded Adran 19 neu Adran 21). Yn sylfaenol mae hyn yn golygu y gall rhywun sydd â

thrwydded car yrru'r bws mini beth bynnag yw'r Uchafswm Más Awdurdodedig (MAM) a ddangosir ar y cerbyd, ac nad oes angen iddynt basio prawf PCV D1 ychwanegol.

- Nid yw'r bws mini yn fwy na 3.5 tunnell fetrig neu 4.25 tunnell fetrig os yw cyfarpar arbenigol ar gyfer teithwyr anabl yn cael ei gynnwys (dim ond ar gyfer y cyfarpar arbenigol y gall y pwysau ychwanegol fod)
- Defnyddir y cerbyd gan gorff anfasnachol at ddibenion cymdeithasol neu addysgol yn unig
- Rhaid i chi fod dros 21 ond dan 70 oed ac wedi dal trwydded yrru lawn am o leiaf 2 flynedd
- Os ydych chi'n 70 oed neu'n hŷn, rhaid i chi fod wedi adnewyddu eich trwydded a phasio prawf meddygol PCV. Pan gaiff eich trwydded yrru ei hadnewyddu yn 70 oed, byddwch yn **awtomatig** yn colli'r hawliadau D1 a D1E oni bai eich bod yn gwneud cais arbennig i'w cadw. Caiff manylion eu cynnwys yn y dogfennau y byddwch yn eu derbyn ar y pryd gan y DVLA, ond bydd yn cynnwys bodloni safon feddygol uwch.
- Nid ydych yn derbyn unrhyw dâl neu gydnabyddiaeth am yrru'r bws mini, ar wahân i dreuliau (e.e. tanwydd a chostau parcio)
- Nid oes gan y bws mini fwy na 16 o seddi i deithwyr (17 yn cynnwys y gyrrwr). Os ydych chi'n bwriadu gyrru cerbyd gyda mwy na 16 o seddi teithwyr bydd angen pasio prawf ychwanegol. Cysylltwch â'r tîm teithio a fflyd am ragor o fanylion os yw hyn yn berthnasol.
- Nid oes gennych chi unrhyw ardystiadau neu erlyniadau arfaethedig sy'n annerbyniol i'r Brifysgol neu ei chwmni yswiriant
- Nid ydych yn tynnu ôl-gerbyd
- Rhaid i chi fod yn yrrwr analwedigaethol (gweler y nodyn isod)

*Gyrrwr **analwedigaethol** yw un <u>nad yw</u> gyrru bws mini yn rhan o ddyletswyddau gofynnol dan y contract cyflogaeth neu gontract gwasanaethau. Er enghraifft, caiff addysgwr proffesiynol sy'n gyrru bws mini yn ystod neu'r tu allan i oriau'r Brifysgol ei ystyried yn yrrwr analwedigaethol, gan nad yw'n gyrru at ddiben hurio neu wobr ac nid yw gyrru'n ofynnol dan y contract cyflogaeth.*

Fodd bynnag nodwch hefyd y gofynion canlynol sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau unigol:

## 1. Os ydych chi wedi pasio prawf gyrru car cyn 1 Ionawr 1997, a bod gennych hawliad D1 ar eich trwydded yrru <u>a</u> phrofiad blaenorol o yrru bws mini

Os ydych chi'n bodloni'r holl feini prawf perthnasol a chewch eich enwebu gan eich rheolwr llinell fel rhywun y pennir yn unigolyn addas i yrru bws mini, yna ar ôl darllen y llawlyfr hwn cewch wneud y canlynol:

- Gwirio gyda'r Tîm Teithio a Fflyd i sicrhau eich bod eisoes wedi'ch dosbarthu'n yrrwr awdurdodedig ar gyfer bysiau mini. Gwnewch gais i fod yn yrrwr bws mini awdurdodedig os nad ydych chi wedi'ch awdurdodi gan y Brifysgol, **<u>cyn</u>** gyrru.

- Ymgymryd ag ymarfer/asesiad priodol mewn bws mini o fewn y 12 mis cyntaf i ddod yn yrrwr awdurdodedig ac yn flynyddol wedi hynny (neu o fewn eich cyfnod ailwirio 12 mis nesaf gan y Tîm Teithio a Fflyd os ydych chi eisoes yn yrrwr awdurdodedig, ac yn flynyddol wedi hynny).
- O ran ymarfer, cynnal asesiad (efallai gyda chydweithiwr) pan fyddwch chi'n barod
- Trefnu eich asesiad (yr adrannau unigol sy'n talu am hwn). Cysylltwch â'r Tîm Teithio a Fflyd i wybod pwy ddylech chi drefnu'r asesiad gyda nhw.

## 2. Os ydych chi wedi pasio prawf gyrru car cyn 1 Ionawr 1997, a bod gennych hawliad D1 ar eich trwydded yrru ond does gennych chi ddim profiad blaenorol o yrru bws mini

Os ydych chi'n bodloni'r holl feini prawf perthnasol a chewch eich enwebu gan eich rheolwr llinell fel rhywun y pennir yn unigolyn addas i yrru bws mini, yna ar ôl darllen y llawlyfr hwn cewch wneud y canlynol:

- Ymgeisio i fod yn yrrwr bws mini awdurdodedig
- Ymgymryd ag ymarfer/asesiad priodol mewn bws mini **cyn gyrru** (ac yn flynyddol wedi hynny).
- O ran ymarfer, cynnal asesiad (efallai gyda chydweithiwr) pan fyddwch chi'n barod
- Trefnu eich asesiad (yr adrannau unigol sy'n talu am hwn). Cysylltwch â'r Tîm Teithio a Fflyd i wybod pwy ddylech chi drefnu'r asesiad gyda nhw.

## 3. Os cawsoch chi eich trwydded yrru car lawn ar neu ar ôl 1 Ionawr 1997 (gyrrwr an-alwedigaethol) a bod gennych chi brofiad blaenorol o yrru bws mini:

Os ydych chi'n bodloni'r holl feini prawf perthnasol a chewch eich enwebu gan eich rheolwr llinell fel rhywun y pennir yn unigolyn addas i yrru bws mini, yna ar ôl darllen y llawlyfr hwn cewch wneud y canlynol:

- Gwirio gyda'r Tîm Teithio a Fflyd i sicrhau eich bod eisoes wedi'ch dosbarthu'n yrrwr awdurdodedig ar gyfer bysiau mini. Gwnewch gais i fod yn yrrwr bws mini awdurdodedig os nad ydych chi wedi'ch awdurdodi gan y Brifysgol, **cyn** gyrru.
- Ymgymryd ag ymarfer/asesiad priodol mewn bws mini o fewn y 12 mis cyntaf i ddod yn yrwr awdurdodedig ac yn flynyddol wedi hynny (neu o fewn eich cyfnod ailwirio 12 mis nesaf gan y Tîm Teithio a Fflyd os ydych chi eisoes yn yrrwr awdurdodedig, ac yn flynyddol wedi hynny).
- O ran ymarfer, cynnal asesiad (efallai gyda chydweithiwr) pan fyddwch chi'n barod
- Trefnu eich asesiad (yr adrannau unigol sy'n talu am hwn). Cysylltwch â'r Tîm Teithio a Fflyd i wybod pwy ddylech chi drefnu'r asesiad gyda nhw.

## 4. Os cawsoch chi eich trwydded yrru car lawn ar neu ar ôl 1 Ionawr 1997 (gyrrwr analwedigaethol) ond does gennych chi ddim profiad blaenorol o yrru bws mini:

Os ydych chi'n bodloni'r holl feini prawf perthnasol a chewch eich enwebu gan eich rheolwr llinell fel rhywun y pennir yn unigolyn addas i yrru bws mini, yna ar ôl darllen y llawlyfr hwn cewch wneud y canlynol:

- Ymgeisio i fod yn yrrwr bws mini awdurdodedig
- Ymgymryd ag ymarfer/asesiad priodol mewn bws mini **cyn gyrru** (ac yn flynyddol wedi hynny).
- O ran ymarfer, cynnal asesiad (efallai gyda chydweithiwr) pan fyddwch chi'n barod
- Trefnu eich asesiad (yr adrannau unigol sy'n talu am hwn). Cysylltwch â'r Tîm Teithio a Fflyd i wybod pwy ddylech chi drefnu'r asesiad gyda nhw.

### Trwydded Yrru – Gwybodaeth Ddefnyddiol:

Ar gyfer materion sy'n ymwneud â hawliadau trwydded yrru a gwybodaeth moduro arall, ewch i wefan swyddogol y Llywodraeth:

https://www.gov.uk/browse/driving/driving-licences

I gael gwybodaeth ynghylch sicrhau hawliad **PCV D1** (Bws mini) llawn, dilynwch y ddolen hon:

https://www.gov.uk/become-lorry-bus-gyrrwr/applying-for-a-bus-or-lorry-provisional-entitlement

## 2.1 Diogelwch a lles eich teithwyr

Gweler hefyd adran 3: Diogelwch Teithwyr.

Mae gyrru bws mini'n dasg anodd a chyfrifol, a byddem yn disgwyl i chi fod yn wybodus yn y dasg ac yn broffesiynol yn eich dull o weithredu.

Mae gyrrwr bws mini'n gyfrifol yn gyfreithiol am ddiogelwch a lles y teithwyr, a bydd pawb yn disgwyl i chi gymryd y gofal mwyaf.

Rhaid i'r cyfrifoldeb hwn fod yn flaenoriaeth drwy'r amser, ac mae'n dechrau o'r amser rydych chi'n cynllunio'r daith ar y cychwyn cyntaf.

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'r cerbyd yn addas i'r dasg, bod eich teithwyr yn deall beth sy'n ddisgwyliedig ganddyn nhw ac yn gwerthfawrogi eich gofal am ddiogelwch ym mhopeth rydych chi'n ei wneud.

- Dylech bob amser asesu risgiau pob taith, gan ddefnyddio pa bynnag arweiniad mae'r Brifysgol yn ei gymeradwyo. Yn ogystal ag ystyried y llwybr(au), amser y daith, rhifau cyswllt ac ati, dylai hyn hefyd gynnwys gwybodaeth berthnasol am eich teithwyr e.e. meddygol, ymddygiad ac ati.

***Rhaid i chi allu ateb y cwestiynau "Beth os ... ?".***

*Beth os yw teithiwr yn sâl? Beth os yw teithiwr yn cael ei anafu? Beth os yw'r cerbyd yn torri i lawr? Beth os ydych chi'n cael damwain? Beth os ydych chi'n hwyr? Beth os ... ?*

• Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod lleoliad y cyfarpar brys - diffoddwr tân a blwch cymorth cyntaf (efallai gydag eitemau meddygol penodol ychwanegol) - a sut y byddech chi'n defnyddio pob un. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i berchnogion bws mini gymryd cyfrifoldeb llawn am sicrhau bod y cyfarpar brys yn parhau'n gyfredol a bod modd ei ddefnyddio. Rhaid i geidwaid cerbydau gwblhau archwiliad gweledol rheolaidd o'r holl ddiffoddwyr tân cludadwy bob mis, yn ogystal ag archwiliad o'r diffoddwyr tân, yn cynnwys edrych ar y diffoddwr i weld a oes difrod neu ddirywiad, gwirio bod y medrydd gwasgedd (os oes un) yn y parth gwyrdd a bod y pin a'r sêl gwrth-ddifrod yn bresennol.

Bob 12 mis, dylid gwasanaethu'r diffoddwyr tân yn unol â Safon Brydeinig 5036-6. Dylai unigolyn cymwys gynnal y gwasanaeth.


• Gwnewch yn siŵr fod yr holl ddrysau wedi'u datgloi wrth gludo teithwyr - mae hyn yn ofyniad cyfreithiol.




Mae blwch cymorth cyntaf addas yn ofyniad cyfreithiol ar bob cerbyd sy'n cludo teithwyr.

Os caiff ei ddefnyddio rhaid ei ail-lenwi'n syth. Rhaid cael o leiaf:

- 10 o weipiau antiseptig, mewn ffoil
- 1 rhwymyn cydymffurfiol tafladwy (dim llai na 7.5cm o led)
- 2 rwymyn triongl
- 1 pecyn o 24 gorchudd adlynol amrywiol
- 3 gorchudd ambiwlans digyfryngiad di-haint mawr (dim llai na 15x20 cm)
- 2 bad llygaid di-haint gydag atodion
- 12 pin diogelwch amrywiol
- 1 pâr o siswrn di-fin gwrthrwd
-



Rhaid monitro a chynnal a chadw pecynnau cymorth cyntaf er mwyn gwneud yn siŵr y gellir eu defnyddio. Os oes unrhyw gynnwys sydd tu hwnt i'r dyddiad y gellir ei ddefnyddio, cysylltwch ag Iechyd a Diogelwch drwy ffonio 633169/ 622073 neu e-bostio hasstaff@aber.ac.uk neu ymweld â'r wefan cymorth cyntaf- https://www.aber.ac.uk/en/hse/proc-prac/first-aid/Mae diffoddwr tân addas hefyd yn ofyniad cyfreithiol mewn bws mini.

Rhaid i hwn gydymffurfio â BS EN3 neu BS 7863, a chynnwys naill ai ewyn neu bowdr sych, ond nid Halon. Rhaid i fysiau mini sy'n cludo teithwyr cadair olwyn gael ail ddiffoddwr tân ger y drws cefn.

Os nad oes gennych fynediad i ddiffoddwr tân addas neu ddiffoddwr gyda chofnod gwasanaeth llawn yna cysylltwch ag Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar yr estyniad 2999 (rhif allanol 01970 622999) neu e-bostio campushelp@aber.ac.uk.

## 2.2 Rheolau'r Ffordd Fawr a chyfraith gyrru sylfaenol

Mae angen i chi ddarllen rhifyn diweddaraf Rheolau'r Ffordd Fawr yn enwedig os bu'n beth amser ers i chi weld copi. Gallwch ei weld ar-lein yma: https://www.gov.uk/guidance/the-highway-code

Ond cofiwch nad yw'r eitemau yn Rheolau'r Ffordd Fawr, fel arwyddion ffordd, i fod yn gynhwysfawr, a bod angen i chi gadw'n gyfredol gyda'r holl arwyddion a marciau ffordd sy'n cael eu defnyddio. Edrychwch allan hefyd am ddeddfwriaeth newydd a all gymryd hyd at flwyddyn i gael ei chynnwys yn Rheolau'r Ffordd Fawr.

| Uchafswm cyflymder bws mini lle mae'r terfyn cyflymder cenedlaethol yn gymwys |  |
|---|---|
| Ffordd sengl | 50mph |
| Ffordd ddeuol | 60mph |
| Traffordd | 70mph |

Fel gyrrwr profiadol dylech eisoes fod yn gyfarwydd â'r cyfreithiau gyrru sylfaenol ac arferion cyffredin.

Dylech wybod eich terfynau cyflymder. Darllenwch Reolau'r Ffordd Fawr 124 - 125. **Cofiwch fod terfyn cyflymder pob ffordd gyda golau stryd yn 30mph oni bai bod arwyddion yn nodi'n wahanol**. Mae absenoldeb golau stryd fel arfer yn golygu uchafswm cyflymder cenedlaethol oni nodir yn wahanol.

Dan rai amgylchiadau efallai bydd 'Dyfais Cyfyngu Cyflymder' wedi'i gosod ar eich cerbyd. Byddai hyn yn cyfyngu eich cyflymder i uchafswm o 62mph (100kph) ac ni fyddech yn cael defnyddio'r drydedd lôn ar drafordd.

Fel arfer ceir sticer ar du mewn y cerbyd yn rhybuddio gyrwyr bod dyfais cyfyngu wedi'i gosod.

Gwnewch siŵr eich bod yn deall y marciau ar y ffordd! Maen nhw'n cynnig gwybodaeth werthfawr am y ffordd rydych chi'n gyrru arni a'r ffordd o'ch blaen. Rhaid gwybod y gwahanol fathau o farciau ar y llinell ganol, y mannau llinellog sydd weithiau ar ganol y ffordd, yn cynnwys cyffyrdd blwch, a'r ffordd mae cyffyrdd a difrifoldeb troeon yn cael eu mynegi. Ydych chi er enghraifft yn gwybod y rheolau cyfredol am groesi llinellau gwyn dwbl? (Rheolau'r Ffordd Fawr 128/129)

Mae'r rhan fwyaf o reolau sy'n berthnasol i geir hefyd yn berthnasol i fysiau mini. Un eithriad yw'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol uchod. Un arall yw mai dyfnder lleiaf gwadn teiar bws mini yw 1mm, ac nid 1.6m fel ar gyfer car. Fodd bynnag, mae gallu'r teiar i symud dŵr yn lleihau'n ddramatig gyda dyfnder sy'n llai na 3mm ac felly dylech ystyried newid eich teiars pan fydd eu dyfnder yn cyrraedd 2mm. Ymgynghorwch â'r Adran Teithio a Fflyd am gyngor.

Wrth yrru bws mini, fe'ch cynghorir chi i **beidio** â defnyddio lonydd bysiau neu fanteisio ar fannau blaenoriaeth eraill i fysiau. Mae'r mannau hyn wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan y Gwasanaeth bysiau Lleol ar lwybrau gwasanaeth sydd wedi'u hamserlennu.

Mae lonydd bysiau weithiau'n un ffordd, ac yn agos at fannau lle ceir cerddwyr a'r peryglon cysylltiedig. Weithiau maen nhw'n arwain at lonydd gwrthlif a all fod yn ddryslyd.

## 2.3 Addasrwydd y cerbyd i'r ffordd

Fel gydag unrhyw gerbyd, mae gyrrwr bws mini'n gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau bod y cerbyd yn addas i'r ffordd. Mae hyn yn broblem gydag unrhyw gerbyd sydd â nifer o bobl yn rhannu ei ddefnydd felly dylech bob amser sicrhau eich bod yn gadael amser ar gyfer gwirio cyn teithio.

Ni ddylech geisio gwneud unrhyw atgyweiriadau. Byddwch yn ymwybodol o gyfyngiadau eich gallu, a cheisiwch gymorth pan fo angen.

Hyd yn oed pan fydd gan rywun arall gyfrifoldeb cyffredinol am y cerbyd, rhaid i **chi** gynnal y gwiriad cyn teithio, a hysbysu'r unigolyn hwnnw am unrhyw broblemau.

**Peidiwch â gyrru'r cerbyd oni bai eich bod yn fodlon ei fod yn addas i'r ffordd.**

- Rhaid i fws mini gael tystysgrif MOT gyfredol bob blwyddyn ar ôl y flwyddyn gofrestru gyntaf.
- Dylech wybod a defnyddio'r drefn sydd gan y Brifysgol ar gyfer hysbysu am namau.
- Gwnewch yn siŵr fod gennych chi'r rhif ffôn a manylion aelodaeth rhag ofn i chi dorri i lawr.
- Os ceir methiant mecanyddol, eich prif gyfrifoldeb yw'r teithwyr. Mae'r cerbyd yn eilbeth.

## 2.4 Gwirio cyn teithio

Bob tro rydych chi'n defnyddio'r bws mini, dylech gynnal gwiriad cyn teithio. Gydag ychydig o ymarfer, bydd hyn yn cymryd ychydig funudau yn unig, ond efallai y byddai'n well gennych chi wneud hyn cyn i'ch teithwyr gyrraedd y bws mini.

Er bod manylion y gwiriad cyn teithio i'w gweld yn Llawlyfr Diogelwch y Gyrrwr, dylai gyrwyr bws mini hefyd ystyried y canlynol:

1. Wrth agosáu at y bws mini edrychwch am unrhyw beth anarferol e.e. difrod allanol neu hylif o dan y cerbyd.
2. Gwiriwch y diffoddwr tân a'r pecyn cymorth cyntaf. Rhyddhewch glicied y boned. Gwiriwch y goleuadau ochr a'r goleuadau rhybudd perygl.
3. Datglowch y drws cefn. Gwnewch yn siŵr fod y llwybr canol yn glir.

## 2.5 Yswiriant y cerbyd

Gwnewch yn siŵr fod yswiriant y Brifysgol yn ddilys er mwyn i chi gael defnyddio'r bws mini i gludo teithwyr ar fusnes swyddogol. Bydd yr Adran Teithio a Fflyd yn gallu eich cynghori.

## 2.6 Oriau'r gyrrwr

Mae damweiniau bws mini yn y gorffennol wedi amlygu blinder fel elfen gyffredin. Cofiwch fod y rhan fwyaf o fysiau mini'n cael eu gyrru gan staff yn wirfoddol, ac yn aml y tu allan i'w horiau gwaith arferol.

Rydym ni'n tybio y bydd cyfanswm hyd y diwrnod gwaith yn un o'r ffactorau alleddol wrth bennu hyd/pellter unrhyw daith a gynllunnir, ac felly rydym ni'n argymell y cyfyngiadau canlynol yn gryf:

| | CYFYNGIAD | NODIADAU |
|---|---|---|
| ***Gyrru dyddiol*** | Uchafswm o 10 awr | Mae hyn yn berthnasol i gyfnod o 24 awr o hanner nos i hanner nos ac yn ymwneud â gyrru'r bws mini yn unig. Nid yw gyrru eich cerbyd eich hun i'r gwaith ac yn ôl yn cyfrif. Hefyd gweler y cymalau isod am seibiau. |
| ***Dyletswydd ddyddiol*** | Uchafswm o 11 awr | Y ddyletswydd ddyddiol yw cyfanswm yr holl amser a gaiff ei dreulio'n gweithio. Mae darlithydd, er enghraifft, yn gorfod cynnwys yr amser addysgu ynghyd â marcio, paratoi, gyrru'r bws mini ac ati.<br><br>Gellir taenu'r 11 awr hyn dros gyfnod o 15 awr. Rhaid i o leiaf 4 awr fod yn 'gyfnod pan fyddwch yn rhydd i ddewis sut i dreulio'ch amser eich hun'. |
| **Gyrru parhaus** | Uchafswm o 2 awr | Os nad yw'n bosibl stopio ar unwaith, agorwch ffenest i gael awyr iach a stopiwch cyn gynted ag y bo'n ddiogel ac yn gyfreithlon. Byddwch yn gallu canolbwyntio'n well o lawer os byddwch chi'n cynllunio eich taith gyda seibiau rheolaidd i orffwys a chael lluniaeth. |
| ***Seibiau*** | O leiaf 15 munud | |
| **Cyfnod gorffwys dyddiol** | O leiaf 11 awr | Rhaid i hyn fod rhwng dau ddiwrnod gwaith ond gallwch ei leihau i 8½ awr o fewn unrhyw un wythnos waith. |

Nodwch fod yr oriau a ddangosir drosodd yn gyfyngedig i weithgaredd gyrru yn unig, ond dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw weithgareddau ychwanegol y gallai'r gyrrwr fod yn eu gwneud fel rhan o'u dyletswyddau yn ystod y cyfnod dan sylw.

Er enghraifft, pe bai unigolyn wedi gyrru am sawl awr, yna wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd neu gyfarfod am sawl awr, ac yna'n gorfod cwblhau cyfnod estynedig arall o

yrru, dylid rhoi ystyriaeth i'r ystod o opsiynau addas i leihau'r risg i lefel oddefadwy, fel rhannu'r gyrru gyda chydweithiwr arall neu ystyried a fyddai arhosiad dros nos yn fwy priodol. Gellir cael arweiniad ar gwblhau Asesiad Risg ar y tudalennau Iechyd a Diogelwch neu gan y Tîm Iechyd a Diogelwch.

Ni ddylai oedi sylweddol nad oes modd ei osgoi e.e. oedi ar y draffordd a/neu ddargyfeiriad, gyfyngu ar gwblhau'r daith cyhyd â bod y gyrrwr yn ystyried ei bod yn ddiogel i barhau.

Os yw eich taith yn hir, neu os yw'n cynnwys naill ai draffordd neu ardaloedd arbennig o anghysbell, dylech ystyried

- cynnwys ail oedolyn/gyrrwr
- cynllunio amserlen i'r daith a'r gyrrwr, a'i chytuno gyda'ch rheolwr llinell

Os yw'n debygol y bydd taith yn estyn y tu hwnt i ffiniau eich oriau gwaith arferol, cyn y daith dylech drafod y trefniadau ar gyfer unrhyw oriau ychwanegol y byddwch yn eu gweithio o ganlyniad i'r gofyniad i yrru'r bws mini fel rhan o'ch rôl gyda'ch Pennaeth Adran, boed Amser yn Rhydd o'r Gwaith neu Oramser.

**Ym mhob amgylchiad, mae'n ofynnol i bob gyrrwr bws mini ddilyn y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith. Ceir crynodeb yn y blwch llwyd isod.**

**Rheoliadau Oriau Gwaith:**

*Bwriedir y canlynol fel crynodeb defnyddiol ond os oes angen cyngor penodol arnoch chi, cysylltwch â'r Adran Iechyd a Diogelwch a/neu Adnoddau Dynol.*

Ni chewch weithio mwy na 48 awr yr wythnos ar gyfartaledd, gyda'r cyfartaledd dros gyfnod 'cyfeiriol' o 17 wythnos. Mae hyn yn golygu y cewch weithio dros 48 awr mewn un wythnos, cyhyd â bod y cyfartaledd dros 17 wythnos yn llai na 48 awr yr wythnos.

Yn gyffredinol mae gan weithiwr hawl i:

- O leiaf 20 munud o saib os yw'n gweithio'n hirach na chwe awr;
- 11 awr olynol o orffwys mewn unrhyw gyfnod o 24 awr;
- Un diwrnod rhydd bob wythnos neu ddau ddiwrnod olynol yn rhydd mewn pythefnos
- Cyfyngiad ar oriau gwaith arferol gweithwyr nos i gyfartaledd o wyth awr mewn unrhyw gyfnod o 24 awr.

Mae wythnos waith yn cynnwys:

- Hyfforddiant yn gysylltiedig â'r swydd
- Amser teithio os ydych yn teithio fel rhan o'ch swydd e.e. cynrychiolydd gwerthiant
- Cinio gwaith e.e. cinio busnes
- Amser a dreulir yn gweithio dramor
- Goramser â thâl
- Goramser di-dâl y gofynnir i chi ei wneud
- Amser ar alw yn y gweithle
- Unrhyw amser a gaiff ei drin fel 'oriau gwaith' dan gontract
- Teithio rhwng y cartref a'r gweithle ar ddechrau a diwedd y diwrnod gwaith (os nad oes gennych leoliad gwaith sefydlog)

Nid yw wythnos waith yn cynnwys

- Amser rydych chi'n ei dreulio ar alwad i ffwrdd o'r gweithle
- Seibiau pan na chaiff unrhyw waith ei wneud e.e. egwyl cinio
- Teithio y tu allan i oriau gwaith arferol
- Goramser di-dâl rydych chi wedi gwirfoddoli i'w wneud e.e. aros yn hwyr i orffen rhywbeth
- Gwyliau â thâl neu ddi-dâl
- Teithio i'r gwaith ac yn ôl (os oes gennych leoliad gwaith sefydlog)

## 2.7 Arferion lleol

Yn ogystal â'r gofynion cyfreithiol, mae gan y Brifysgol bolisi diogelwch gyrrwr a thri llawlyfr ategol (yn cynnwys hwn).

Yn ddelfrydol, dylid cadw copi perthnasol o unrhyw reolau o'r fath yn y cerbyd.

Dylech sicrhau eich bod wedi derbyn hyfforddiant digonol ar gyfer defnyddio unrhyw gyfarpar a ddarperir yn ddiogel. Trafodwch unrhyw bryderon a allai fod gennych gyda'ch rheolwr llinell.

## 3.1 Llwytho a dadlwytho teithwyr

**Cofiwch:** y gyrrwr sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles y teithwyr.

Mae angen i chi wneud yn siŵr fod eich teithwyr yn deall yr ymddygiad a ddisgwylir ganddynt ac y gallai unrhyw beth sy'n tynnu sylw'r gyrrwr fod yn beryglus.

- Cyn llwytho neu ddadlwytho teithwyr gwnewch yn siŵr fod y cerbyd yn llonydd a bod y brêc llaw wedi'i weithredu'n llawn. Os oes gan y cerbyd flwch gêr awtomatig, gwnewch yn siŵr eich bod wedi dewis 'park'. Os oes ganddo flwch gêr llaw a bod yr injan yn rhedeg, gwnewch yn siŵr eich bod wedi dewis niwtral. Dylid ystyried defnyddio goleuadau rhybudd os byddai hynny'n gwneud y cerbyd yn fwy gweladwy.
- Os ydych chi'n gadael sedd y gyrrwr e.e. i oruchwylio llwytho, tynnwch yr allweddi.
- Beth bynnag eu hoed, dim ond un teithiwr ddylai fod ym mhob sedd a rhaid gwisgo gwregys diogelwch.
- Dylai teithwyr fel rheol fynd i mewn ac allan drwy'r drws llithro ar yr ochr fewnol, a dylid eu goruchwylio. Gwnewch yn siŵr bob amser fod clicied diogelwch y drws yn ei safle cywir. Gyda'r nos, gwnewch yn siŵr fod y goleuadau ochr (nid y prif oleuadau) ynghynn, ac os yw'n bosibl parciwch y cerbyd yn wynebu cyfeiriad llif y traffig.
- Wrth barcio, gofalwch eich bod yn dewis lleoliad addas. Os oes rhaid i chi aros ar y brif ffordd, dylai'r bws mini fod yn ddigon clir i'r defnyddwyr ffordd eraill ei weld. Ystyriwch wisgo siaced gwelededd uchel, yn enwedig yn y tywyllwch.
- Mewn achosion penodol, fel gyda theithwyr oedrannus neu anabl, gallai'r union safle lle'r ydych chi'n parcio fod yn arbennig o bwysig e.e. pa mor agos ydych chi i ymyl y palmant, pellter cerdded, digon o le yn y cefn ar gyfer y ramp cadair olwyn ac ati.
- Os nad oes dewis ar wahân i ddadlwytho teithwyr o'r drws ochr i'r ffordd, rhaid cael oedolyn cyfrifol wrth y drws, yn wynebu llif y traffig ac yn goruchwylio'r dadlwytho.
- Fel arfer, defnyddiwch y drws cefn fel allanfa frys yn unig. Gall agor y drysau hyn olygu bod eich teithwyr ar y ffordd yn lle'r llwybr troed, ac yn y nos gallent guddio goleuadau cefn y cerbyd.
- Os oes rhaid i chi ddefnyddio'r drysau cefn rhaid cael oedolyn cyfrifol wrth y drws, yn wynebu llif y traffig ac yn goruchwylio'r dadlwytho. Mae gofyniad cyfreithiol arnoch i ganiatáu mynediad i'r drysau cefn bob amser.
- Rhaid i'r teithwyr aros ar eu heistedd tra bo'r cerbyd yn symud. Ni ddylent dynnu eu gwregysau diogelwch hyd nes y cânt gyfarwyddyd i wneud. Y ddamwain fwyaf cyffredin pan fydd y cerbyd wedi parcio yw trawiad o'r cefn a'r teithwyr sydd yn y perygl mwyaf yw'r rheini yng nghefn y cerbyd.

- Rhaid i chi ddosbarthu'r llwyth yn gyfartal ar draws y cerbyd (blaen/cefn a chwith/dde). Ar wahân i fod yn ofyniad cyfreithiol, bydd peidio â gwneud hynny'n bendant yn effeithio ar y ffordd y byddwch yn gallu trin y cerbyd (yn enwedig brecio a llywio).
- Rhaid storio bagiau fel nad ydynt yn rhwystro unrhyw rai o'r allanfeydd. Byddai gwneud hynny'n anghyfreithlon ac mae'n un o'r pethau cyntaf y byddai'r heddlu'n edrych amdano pe baech chi'n cael eich stopio.

## 3.2 Uchafswm y llwyth a ganiateir

Rydych chi, y gyrrwr, yn gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau nad yw cyfanswm pwysau'r bws mini a'r teithwyr yn uwch na'r uchafswm a gynllunnir ar gyfer y cerbyd - y cyfeirir ato fel Uchafswm y Más Awdurdodedig (MAM). Gallwch weld hwn a gwybodaeth arall ar y plât pwysau sydd ar bob cerbyd (gall fod ar biler drws y gyrrwr ond does dim un lle safonol ar ei gyfer).

Ar gyfer bws mini, uchafswm y MAM yw 3500kg (3.5 tunnell fetrig) oni bai ei fod yn cynnwys cyfarpar arbenigol ar gyfer cludo teithwyr anabl lle gellir caniatáu uchafswm o hyd at 4250kg (4.25 tunnell fetrig).

Gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n gorlwytho'r echelau blaen neu gefn - dosbarthwch lwyth y teithwyr rhwng blaen a chefn y cerbyd.

- Peidiwch byth â mynd dros y MAM.
- Mae cludo uchafswm y nifer o deithwyr a ganiateir yn annhebygol o orlwytho eich bws mini, er gydag arddegwyr hŷn neu oedolion gallech fod yn agos ati. Fodd bynnag gallai cludo bagiau naill ai yn y cerbyd neu ar y to, neu dynnu ôl-gerbyd, olygu eich bod yn gwneud hynny.

Gallai pwysau gros cerbyd bws mini â 17 sedd fod yn 3500kg, a phwysau heb lwyth yn 2200kg. Y gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn, 1300kg, yw'r capasiti i'ch cludo chi, eich teithwyr ac unrhyw fagiau.

Dylech dybio bod pwysau arddegyn hŷn neu oedolyn ar gyfartaledd o ddeutu 75kg (12 stôn). Cyfanswm pwysau un ar bymtheg o deithwyr fel hyn fyddai 1200kg – sydd o fewn y terfyn yn yr enghraifft uchod o 1300kg.

### *Pontydd pwyso*

Ceir rhestr o bontydd pwyso drwy gysylltu â'ch Awdurdod Lleol.

## 3.3 Gwregysau diogelwch

Mae'n ofynnol i bob bws mini gael gwregysau diogelwch ac mae eu gwisgo yn ofyniad cyfreithiol. Ni chaniateir i deithwyr sefyll.

**Seddi Blaen mewn Bysiau Mini**

- Yn ôl y gyfraith rhaid i blant ac oedolion sy'n teithio ym mlaen pob cerbyd, yn cynnwys faniau, bysiau, bysiau mini a cherbydau nwyddau ddefnyddio seddau plant priodol neu wregys diogelwch oedolion.

**Seddi Cefn mewn Bysiau Mini**

Rhaid i deithwyr sy'n eistedd yng nghefn bysiau mini wisgo'r gwregysau diogelwch a ddarperir. Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau:

- Bod plant dan 3 oed yn defnyddio sedd plentyn addas os yw ar gael.
- Bod plant rhwng 3 a 12 oed a dan 1.35 metr o daldra'n defnyddio sedd plentyn addas os yw ar gael, neu os nad yw ar gael, yn defnyddio'r gwregys diogelwch.
- Bod plant 12 a 13 oed (a phlant iau sy'n 1.35 metr o daldra neu fwy) yn defnyddio gwregys diogelwch.
- Bod teithwyr dros 14 oed yn defnyddio gwregys diogelwch.
- Mae'n ofyniad gan y Brifysgol bod y gyrrwr gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod seddi/gwregysau'n cael eu defnyddio/gwisgo gan yr holl deithwyr drwy'r amser. **Dim eithriadau**.

## 3.4 Cynllunio eich taith

Mae'n hanfodol fod pob taith yn cael ei chynllunio. Yn ogystal ag ymgyfarwyddo â'r adran ar Gynllunio eich Taith yn llawlyfr diogelwch y gyrrwr, mae angen i chi ystyried:

- Oriau'r gyrrwr a seibiau i orffwys/cysur o leiaf bob dwy awr – Dyma uchafswm yr amser rhwng seibiau. Peidiwch â synnu os bydd un o'ch teithwyr yn gofyn am aros ar ôl awr!
- Manylion y daith – Asesiad risg, pellter, hyd, math o ffyrdd, llwytho, cyflwr y cerbyd a'r tywydd.
- Addasrwydd i yrru – *Chi, eich teithwyr a'r cerbyd.*
- Cyswllt brys – *Rhywun nad yw'n teithio gyda chi, a fydd ar gael drwy'r amser.*
- *Rhowch fanylion eich cyrchfan, eich llwybr a'r amseroedd.*
- Rhagweld problemau:
    - *Byddwch yn ymwybodol o anghenion unigol unrhyw deithwyr a gweithrediad yr holl gyfarpar diogelwch sy'n cael ei gludo.*
    - *Dylech wybod beth fyddech chi'n ei wneud mewn argyfwng.*
    - *Gwiriwch y we, y radio neu debyg ymlaen llaw. Mae modd gosod sain rhai radios RDS ar sero ond bydd yn dal i dorri ar draws gyda phroblemau traffig.*
    - *Ystyriwch ddefnyddio llywio lloeren ar gyfer ardaloedd llai cyfarwydd, ond ewch â map wrth gefn. Meddyliwch am lwybrau amgen, a chadwch rifau ffôn defnyddiol wrth law – a ffôn.*

- Ail yrrwr a/neu gydymaith
    - *Hanfodol os oes ei angen oherwydd eich amgylchiadau.*
    - *Argymhellir ar gyfer taith estynedig.*

## 3.5 Pobl gydag anableddau / Teithwyr gyda chadeiriau olwyn

Os ydych chi'n cludo teithwyr gydag anableddau bydd y Brifysgol yn gallu trefnu hyfforddiant penodol ychwanegol a/neu gymorth priodol. Mae'r hyfforddwyr arbenigol hyn yn awdurdodol ac yn hynod o broffesiynol yn y math hwn o waith.

Fel arfer bydd yn hanfodol cael oedolyn arall yn gweithredu fel cydymaith, gan y gallai fod angen i chi gludo a/neu ddefnyddio eitemau ychwanegol o gyfarpar.

Os yw'r cerbyd yn cynnwys lifft ar y cefn i hwyluso teithwyr sy'n defnyddio cadair olwyn i fynd i mewn a dod allan, yna am resymau iechyd a diogelwch, mae'n hanfodol fod y cyfarpar hwn yn cael ei ddefnyddio'n briodol a bod cadeiriau olwyn yn cael eu gosod yn gadarn yn y cerbyd. Os oes cyfarpar o'r fath yn cael ei osod, rhaid i'r gyrwyr gysylltu â'u rheolwr llinell i sicrhau bod polisi'r Brifysgol yn cael ei ddilyn yn gywir ac i fanteisio ar unrhyw hyfforddiant priodol sydd ar gael.

## 3.6 Rôl cydymaith

Argymhellir cydymaith os yw anghenion y teithwyr yn galw am hynny (e.e. pobl ag anableddau a theithiau hir), ac maen nhw'n hanfodol os yw canllawiau'r sefydliad yn pennu eu bod yn angenrheidiol. Yn yr achos olaf hwn, byddwch yn derbyn canllawiau penodol am y cyfrifoldebau a'r camau gweithredu angenrheidiol.

Yn gyffredinol, rôl y cydymaith yw cynorthwyo gyda goruchwylio ac anghenion diogelwch y teithwyr drwy'r amser. Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o asesiadau risg, yn enwedig mewn perthynas â theithwyr penodol.

- Mae gan y gyrrwr gyfrifoldebau arferol am y cerbyd a'r teithiwr o hyd, ond bydd y cydymaith yn cynnig cefnogaeth a chymorth ac mae'n hanfodol deall y ffordd orau i rannu'r dyletswyddau.
- Gall cydymaith gynnig goruchwyliaeth werthfawr yn ystod y daith nad oes modd i'r gyrrwr ei chyflawni, ac yn aml gall helpu gydag unrhyw broblemau tra bo'r cerbyd yn teithio.
- Gall cydymaith hefyd gynorthwyo'r gyrrwr wrth symud y cerbyd.

## 4.1 Cyfyngwyr cyflymder

Rhaid i bob bws mini a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf ar neu ar ôl 1 Hydref 2005, a'r rheini a ddefnyddir dramor, fod â chyfyngwr cyflymder. Mae hyn yn cyfyngu'r cyflymder i 62mph ac yn golygu na allwch ddefnyddio lôn allanol traffordd sydd â thair lôn.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod a oes cyfyngwr cyflymder ar eich bws mini, gan ddeall sut mae'n effeithio ar eich gallu i oddiweddyd, cyflymu, newid lôn ac ymuno â ffyrdd cyflymder uchel o lôn ymuno.

## 5.1 Salwch teithwyr

Dylai'r asesiad risg ar gyfer unrhyw daith gynnwys gwybodaeth am unrhyw rai o'ch teithwyr sydd â phroblem feddygol ddifrifol, y symptomau i edrych amdanynt a'r camau y gallai fod angen i chi eu cymryd.

Bydd gan y Brifysgol bolisïau ynghylch ymdrin ag amrediad o sefyllfaoedd fel hyn ac felly dylech wybod beth sy'n ddisgwyliedig gennych chi, gan gynnwys unrhyw broblemau llai difrifol fel cur pen, mân anafiadau neu gleisiau ac ati. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ddefnyddio'r blwch cymorth cyntaf sy'n gorfod bod yn y cerbyd, a pha un a ddylid defnyddio menig a mwgwd ceg ddi-haint ai peidio (dydyn nhw ddim yn rhan o'r blwch cymorth cyntaf safonol).

Gallai fod canllawiau penodol, er enghraifft, ynghylch pryd i alw'r gwasanaethau brys, a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd rhaid i chi gynllunio eich taith gyda gofal ychwanegol. Ar adegau eraill gallai fod rhaid i chi gael oedolyn arall yn y bws mini fel cydymaith.

Dylech sicrhau eich bod yn hysbysu'r bobl briodol yn llawn drwy ddefnyddio eich rhif cyswllt.

## 6.1 Mynd â bws mini dramor

Mae mynd â bws mini dramor yn gymhleth ac yn golygu paratoi sylweddol gan fod rheoliadau gwahanol yn gymwys. Efallai y bydd rhaid i'r gyrrwr sefyll prawf gyrru DSA ychwanegol ar gyfer cerbydau sy'n cludo teithwyr, efallai fydd angen addasu'r cerbyd, ac mae'n debygol y bydd angen yswiriant ychwanegol.

Mae'n annhebygol y byddai unrhyw arbedion cost cyffredinol, a fawr ddim mantais, os o gwbl. Byddai'r Brifysgol yn eich cynghori i ystyried llogi bws a gyrrwr o gwmni llogi bysiau dibynadwy. Cysylltwch â'r adran Teithio a Fflyd am arweiniad.

## 7.1 Arwydd uchder y bws mini

Mae bob amser yn syniad da gwybod uchder eich cerbyd. Gallwch ddefnyddio'r templed isod i greu arwydd y gallwch ei gosod rhywle amlwg yn y cerbyd – rydym ni'n awgrymu ar gefn fisor haul y gyrrwr.

Peidiwch byth â gosod dim byd ar y sgrin wynt nac ar unrhyw ffenest arall gan y gallen nhw rwystro golwg y gyrrwr ac mae'n debygol o fod yn anghyfreithlon.

| | |
|---|---|
| **UCHDER** | metrig |
| **UCHDER** | imperial |
| **LLED** | metrig |
| **LLED** | imperial |

Argraffwch y label – mewn lliw os yn bosibl.

Torrwch o gwmpas y llinell doredig, gosodwch uchder a lled y cerbyd mewn metrau, troedfeddi a modfeddi.

Awgrymwn eich bod yn ei lamineiddio a'i osod y tu ôl i fisor haul y gyrrwr.